EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

**COFNODION TRYDYDD CYFARFOD A DEUGAIN**
**CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG**

**DYDDIAD: 19 Mawrth 2026**

**LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA**

**Yn bresennol:**
**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Geraint Williams (Cadeirydd) | Jane Jenkins |
| David Edwards | Theresa Evans-Rickards |
| Gwawr Taylor | David Williams |
| Kelly Edwards | Karl Jones |

**Ymddiheuriadau:** Sue Walker, Nicola Stubbins, Kathryn Robson

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Lisa Winstone | Prif Weithredwr |
| Christine Hellings | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Bethan Stacey | Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi |
| David Brown | Cyfarwyddwr Rheoleiddio |
| Louise Deeley | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (*cofnodion*) |
| Ben Lester | Rheolwr Polisi a Chynllunio (*arsylwi*) |
| Sioned Wyn | Swyddog Cyfathrebu CGA (*arsylwi*) |
| Nerys Hurford | Cyfieithu ar y pryd |

**1. Croeso a materion rhagarweiniol**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau a swyddogion i drydydd cyfarfod a deugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Croesawodd ef y cyfieithydd ar y pryd, arsylwyr CGA a Christine Hellings, y *Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*, i'w chyfarfod cyntaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nicola Stubbins, Sue Walker a Kathryn Robson.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am lenwi eu ffurflenni adolygu cyn y cyfarfodydd adolygu blynyddol, y byddent yn cael eu cynnal yr wythnos ganlynol.

1.3 Atgoffwyd aelodau y byddai diwrnod hyfforddiant blynyddol gorfodol yr aelodau yn cael ei gynnal yng Ngwesty Holland House ar 23 Ebrill 2026.

**2. Datganiadau Buddiannau**

2.1 Datganodd Kelly Edwards Fuddiant yn gysylltiedig â'i rôl yn ColegauCymru.

**3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hyder yn ei ethol ef yn Gadeirydd y Cyngor. Nododd werthfawrogiad i'r cyn-Gadeirydd, Eithne Hughes, am ei holl waith blaenorol a'i chymorth wrth drosglwyddo'r Gadeiryddiaeth cyn ei hymadawiad ym mis Rhagfyr. Diolchwyd hefyd i'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli, y Tîm Llywodraethu, a'r Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr, am eu help dros y misoedd diwethaf.

3.2 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod rôl CGA yn y broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau newydd y Cyngor wedi dod i ben. Y disgwyl oedd y byddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i benodi dau aelod cyn hir.

3.3 Nodwyd na chafwyd unrhyw enwebiadau oddi wrth gyrff enwebedig, felly byddai recriwtio aelodau'r Cyngor ymhellach yn digwydd yn dilyn yr etholiad, sydd ar ddod.

**4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 20 Tachwedd 2025**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft gyfarfod y Cyngor ar 20 Tachwedd. Gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o drafodaethau.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi a chadarnhaodd y Cyngor y cofnodion.

**5. Cael gwybod am unrhyw faterion y mae'r aelodau'n dymuno eu codi yn gysylltiedig â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'**

5.1 Ni roddwyd gwybod am unrhyw faterion.

**6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 27 Ionawr 2026**

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar yr agenda, maes o law.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 27 Ionawr 2026**

7.1 Cyflwynodd Geraint Williams y cofnodion ar ran Nicola Stubbins (*Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio)* a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

## 8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 29 Ionawr 2026

8.1 Cyflwynodd Gwawr Taylor (*Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu*) y cofnodion a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

8.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

## 9. Adroddiad gan y Prif Weithredwr — CGA 01/26

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw mewn man arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

9.2 Roedd cais llythyr y Cynnig Grant arfaethedig ar gyfer 2026-27 wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 6 Mawrth 2026 ac roedd y Prif Weithredwr yn gwybod bod arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio'n weithgar arno er mwyn i Ysgrifennydd y Cabinet ei gymeradwyo cyn y cyfnod cyn-etholiadol.

9.3 Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r grŵp newydd, sef Grŵp Datblygu'r Gweithlu Gwaith Ieuenctid ac, yn ogystal â'r cyfarfodydd a nodwyd eisoes, roedd wedi cymryd rhan mewn diwrnod datblygu defnyddiol iawn ar 13 Mawrth 2026.

9.4 Roedd CGA wedi chwarae rhan sylweddol yn natblygiad y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg, a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2026 gan Ysgrifennydd y Cabinet. Roedd CGA wedi cynnig cymorth pellach er mwyn helpu datblygu rhai o'r meysydd allweddol.

9.5 Roedd y Prif Weithredwr wedi cymryd rhan mewn sesiwn ddilynol Cymru Wrth-hiliol: Mini Uwchgynhadledd Addysg, ar 16 Mawrth 2026.

9.6 Roedd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru ar 17 Chwefror 2026 i gyfrannu at yr adolygiad presennol o Gyrff Llywodraethu ar draws Cymru, ac i archwilio pa gymorth y gallai CGA, fel rheoleiddiwr, ei gynnig yn y maes hwnnw.

9.7 Roedd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a'r Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi, wedi mynd i gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru ar 4 Rhagfyr 2025 i drafod cynnig i sefydlu corff adolygu tâl ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a Staff Cymorth yng Nghymru.

9.8 Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi gallu dod i gyfarfodydd mis Tachwedd na mis Mawrth y Cyngor. Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai, byddai gwahoddiad yn cael ei anfon at Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Addysg, i'w wahodd i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2026. Roedd y cyfarfodydd diwethaf â phleidiau gwleidyddol wedi digwydd yn nhymor yr hydref ac ni fyddai unrhyw gyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal hyd nes bod gweithgareddau'r etholiad wedi dod i ben.

9.9 Roedd darlith flynyddol CGA ar rôl gweithgarwch corfforol wrth gefnogi ymddygiad cadarnhaol a lles, a gyflwynwyd gan yr Athro Kelly Mackintosh, wedi'i chynnal ar 29 Ionawr 2026. Roedd digwyddiad Dosbarth Meistr nesaf CGA wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mai 2026 a byddai'n cael ei gyflwyno gan Jon Bockelmann-Evans, gan ganolbwyntio ar iechyd emosiynol a lles parhaus.

9.10 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**10. Cynlluniau Strategol, Gweithredol a chysylltiedig drafft CGA CGA 02/26**

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y gyfres o gynlluniau drafft a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Ionawr.

10.2 Roedd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Strategol drafft wedi cau ar 13 Mawrth 2026 ac ni fu unrhyw newidiadau o sylwedd o ganlyniad.

10.3 Fe wnaeth y Cynllun Gweithredol gynnwys y gyllideb ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 ac roedd yn rhagweld diffyg o £1.2m yn y gyllideb, a oedd yn uwch o lawer na rhagolwg gwreiddiol y gyllideb a gynigiwyd yn 2025-26, yn bennaf oherwydd y rhagdybiaeth y byddai Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ymgynghoriad ar ffioedd yng ngwanwyn 2025, gan arwain at gynnydd mewn ffioedd. Cytunwyd â Llywodraeth Cymru y byddai ffioedd yn cael eu cadw ar £45/£15 ac y byddai Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth grant o £1.2m er mwyn cadw'r ffioedd ar y lefel hon am flwyddyn arall.

10.4 Roedd dyfarniad tâl presennol Llywodraeth Cymru, sy'n berthnasol i CGA, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026. Byddai Llywodraeth Cymru yn dechrau adolygiad newydd o'r dyfarniad tâl a byddai CGA yn cael gwybod am y dyfarniad tâl newydd pan fyddai Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo. Ar sail trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, roedd CGA wedi cael gwybod bod angen iddo gyllidebu am gynnydd o 3.2%.

10.5 Cadwyd yr un nifer o wrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer yn y gyllideb, sef 55.

10.6 Roedd uwch reolwyr wedi adolygu amcangyfrifon o niferoedd cofrestreion ac er na fu newid i gyfanswm nifer y cofrestreion, roedd y rhaniad rhwng niferoedd y cofrestreion £45 a £15 wedi cael ei addasu i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

10.7 Roedd cost Hyrwyddo Gyrfaoedd (£299,000) wedi cael ei chynnwys yng nghyllideb CGA a ariennir gan ffioedd am y tro cyntaf oherwydd ansicrwydd am y cymorth grant y byddai Llywodraeth Cymru'n ei roi yn 2026-27. Os byddai'n cael ei ddyfarnu, byddai'r diffyg yn y gyllideb yn lleihau yn unol â swm y cymorth grant a gafwyd.

10.8 Nododd un aelod fod nifer o leoliadau arbennig annibynnol yn cyflogi athrawon ysgol ond yn eu cofrestru yng nghategori'r ffi is o dan deitlau rolau gwahanol. Dywedodd aelod arall y gallai lefelau rhwymedigaethau'r rolau fod yn wahanol.

10.9 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r mater yn cael ei drafod gyda'r tîm Cofrestru.

10.10 Ceisiodd un aelod sicrwydd ynghylch y diffyg yn y gyllideb a'r cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.

10.11 Nododd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai cymhorthdal o £1.2m yn cael ei ddarparu ar gyfer 26-27, ac o'i ddefnyddio ar y cyd ag oddeutu £1.2m o'r gronfa gyffredinol wrth gefn, byddai hynny'n caniatáu am gadw lefelau ffioedd ar £45/£15. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno y gallai gwaith ddechrau ar ddrafftio dogfennaeth yr ymgynghoriad ffioedd ar gyfer 27-28, yn barod i lywodraeth newydd ei hystyried yn y gwanwyn. Y gobaith oedd gallu cytuno ar fodel ffioedd a fyddai'n talu holl gostau sefydliadol CGA, fel na fyddai angen cymorthdaliadau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

10.12 Holodd un aelod am y gwaith Hyrwyddo Gyrfaoedd sydd wedi'i ariannu, a'r ansicrwydd am gymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

10.13 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau am yr ychwanegiad at y ffioedd wedi hepgor y gwaith Hyrwyddo Gyrfaoedd wedi'i ariannu, a oedd hefyd yn cael ei ddosbarthu'n gymorth grant. Yr arfer oedd gofyn am arian Hyrwyddo Gyrfaoedd ar wahân, a'r gobaith oedd y byddai cadarnhad o'r arian hwnnw'n dod i law cyn hir.

10.14 Holodd un aelod p'un a oedd posibilrwydd y gallai aelodau arweinyddiaeth dalu ffi ychydig yn wahanol i aelodau athrawon arferol o dan fodel ffioedd newydd.

10.15 Nododd y Prif Weithredwr y byddai trafodaethau ar gategorïau ffioedd yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru, ond byddai angen i'r model aros yn syml at ddibenion gweinyddol.

10.16 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r gyfres o gynlluniau drafft a'r gyllideb ddiffyg ar gyfer 2026-27.

**11. Cyfres ddrafft o ddogfennau Llywodraethu Corfforaethol CGA 03/26**

11.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a gyflwynodd gyfres y Cyngor o ddogfennau corfforaethol i'w trafod, yn dilyn eu hadolygiad rheolaidd.

11.2 Roedd y dogfennau wedi cael eu hadnewyddu, heb unrhyw newidiadau nodedig.

11.3 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r gyfres ddrafft o ddogfennau.

**12. Uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA CGA 04/26**

12.1 Cyflwynodd David Browne (*Cyfarwyddwr Rheoleiddio*) y papur hwn, a amlinellodd gynnydd hyd yn hyn i uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA.

12.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau am ddyddiad cyflwyno diwygiedig, sef 24 Gorffennaf 2026.

12.3 Roedd swyddogion CGA wedi dechrau cam un Profi Derbynioldeb i'r Cwsmer y datblygiad ac roedd cynnydd sylweddol wedi'i nodi.

12.4 Nid oedd Carreg Filltir Talu 1 wedi'i dalu eto i ClearCourse ac roedd trafodaethau am strwythur talu teg yn mynd rhagddynt.

12.5 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad cynnydd.

**13. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 05/26**

13.1 Cyflwynodd David Browne yr adroddiad cynnydd hwn a roddodd ddiweddariad i aelodau ar waith CGA yn gysylltiedig â Chofrestru a gweinyddu dyfarniad Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

13.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod nifer y cofrestreion ar gyfer 2025-26 wedi bodloni'r gyllideb.

13.3 Hyd yn hyn, roedd nifer y cofrestreion a oedd yn talu'r ffi uwch islaw'r nifer a osodwyd yn y gyllideb, ac roedd nifer y cofrestreion a oedd yn talu'r ffi is uwchlaw'r nifer a osodwyd yn y gyllideb. Effaith net hyn oedd bod incwm wedi rhagori ar y gyllideb.

13.4 O ran y newid deddfwriaethol, 'Gofyniad i feddu ar gymhwyster athrawon addysg bellach', roedd newidiadau i Atodlen 6, sy'n rhestru cymwysterau derbyniol, wedi'u diweddaru ar 19 Mawrth 2026.

13.5 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ffeithlen am gymwysterau gofynnol athrawon AB ac roedd CGA wedi cael ychydig bach o ymholiadau gan gyflogwyr, o ganlyniad.

13.6 Parhaodd CGA i weithio gyda Llywodraeth Cymru a ColegauCymru i esbonio, ar gyfer pob rhanddeiliad, sut byddai cymhwyster gofynnol athrawon AB yn gweithio i holl athro ymarferwyr AB.

13.7 Cyfeiriwyd aelodau at Atodiad A a'u hysbysu bod 7,308 o ymarferwyr bellach wedi cofrestru mewn mwy nag un categori, sef 2,973 yn llai na'r rhif yr adroddwyd amdano ym mhapur diwethaf y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio. Fodd bynnag, roedd disgwyl i'r rhif hwn godi eto ar ôl i gyflogwyr dalu eu ffioedd a diweddaru eu cofnodion.

13.8 Yn dilyn yr ymholiad cynt am gofrestreion o leoliadau arbennig annibynnol, cadarnhaodd David Browne fod y niferoedd yn Atodiad A yn gysylltiedig ag athrawon ysgolion annibynnol/arbennig a gweithwyr cymorth dysgu, yn cyd-fynd â'r disgwyl.

13.9 Holodd un aelod p'un a oedd cofrestreion yn talu nifer o ffioedd os oeddent wedi cofrestru mewn mwy nag un categori.

13.10 Cadarnhaodd David Browne mai dim ond y ffi gofrestru uwch fyddai'n cael ei chodi.

13.11 Holodd un aelod p'un a oedd pryder am y gostyngiad yn nifer yr athrawon ysgol a oedd yn cwblhau sefydlu, a ph'un a oedd unrhyw ddata am y rhai nad oeddent yn cwblhau sefydlu.

13.12 Nododd Bethan Stacey, *Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*, bod y gostyngiad mewn sefydlu yn adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y swyddi sydd ar gael yn y system. Roedd data a ddelir yn dangos bod 75-80% o'r rhai a oedd yn ymgymryd â sefydlu ar gontractau cyfnod penodol, dros dro neu gyflenwi, sydd i gyd yn effeithio ar recriwtio a chadw.

13.13 Roedd Llywodraeth Cymru wedi penodi Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ymgymryd â rhywfaint o waith ymchwil er mwyn llywio fframwaith gyrfa gynnar.

13.14 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad cynnydd.

**14. Adroddiad Cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA 06/26**

14.1 Cyflwynodd David Browne yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig.

14.2 Roedd cyllideb 2025-26 wedi cynllunio ar gyfer 55 o wrandawiadau ac roedd 52 wedi'u cynnal.

14.3 Cynhaliwyd 17 Pwyllgor Addasrwydd ers 1 Ebrill 2025, a oedd yn fwy na'r nifer arfaethedig, sef 10. O'r rhain, caniatawyd 11 a gwrthodwyd 6.

14.4 Holodd un aelod am yr amrywiaeth mewn atgyfeiriadau a ph'un a oedd cysylltiad rhwng gwrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer a oedd yn dod i ben heb osod gorchymyn, ac atgyfeiriadau a oedd yn cyrraedd gan gyflogwyr neu asiantaethau gwahanol.

14.5 Nododd David Browne fod peidio â gosod gorchymyn ar ôl i achos ddod i ben yn digwydd yn aml oherwydd materion fel methu cyfnod prawf, yn hytrach na phryderon am ymddygiad. Hefyd, nododd ei bod yn ymddangos bod nifer fawr o awdurdodau lleol nad oeddent yn gwneud unrhyw atgyfeiriadau, a oedd yn fwy o bryder.

14.6 Holodd un aelod am y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer ymarferwyr dysgu'n seiliedig ar waith, a ph'un a oedd y categori hwnnw wedi ymgartrefu yn y sector, neu p'un a oedd efallai oherwydd y gwaith ataliol yr oedd CGA yn ymgymryd ag ef.

14.7 Cydnabu David Browne ei bod hi'n bosibl bod gwaith ataliol yn cael effaith, ond bod y sector hefyd yn dda am atgyfeirio, pan roedd angen.

14.8 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**15. Polisi Drafft ar Gronfeydd wrth Gefn CGA 07/26**

15.1 Cyflwynodd Christine Hellings y papur hwn, a gyflwynodd safiad CGA am ei Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn ffurfiol.

15.2 Nododd bod y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn £2.9 miliwn, gyda chronfeydd wrth gefn ychwanegol wedi'u neilltuo ar gyfer y gronfa ddata, yr adeilad a gweithgareddau priodoldeb i ymarfer.

15.3 Roedd hi'n bosibl y byddai cronfa wrth gefn y gronfa ddata yn gostwng cyn diwedd y flwyddyn ariannol pe cytunwyd ar amserlen taliad carreg filltir ar gyfer y gronfa ddata, ac y byddai'n gostwng yn sylweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

15.4 Byddai trafodaethau ar brydles yr adeilad yn digwydd yn yr hydref.

15.5 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y byddai cronfeydd arian parod wrth gefn CGA ar ddiwedd y flwyddyn uwchlaw'r goddefiant safonol, sef 2%, a byddai angen i CGA gael cadarnhad ffurfiol gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y balansau sy'n cael eu dal yn anorfod.

15.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r polisi ar gronfeydd wrth gefn.

**16. Canllaw Arfer Da Drafft: Cynnal Cyfrinachedd CGA 08/26**

16.1 Cyflwynodd David Browne y canllaw arfer da drafft newydd ar gynnal cyfrinachedd.

16.2 Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio am eu cyfraniad.

16.3 Holodd un aelod p'un a ddylid datgan yn gliriach fod ffotograffau'n cael eu hystyried yn ddata personol, a ph'un a ellid cynnwys Atodiad yn rhoi enghreifftiau penodol o ddata personol. Hefyd, nodont fod y disgwyliad i staff ddefnyddio dyfeisiau personol i dynnu ffotograffau oherwydd diffyg cyfarpar yn broblem.

16.4 Holodd un aelod p'un a oedd effaith canllawiau arfer da yn cael ei monitro trwy nifer yr ymwelwyr â'r wefan ac adborth gan gofrestreion.

16.5 Nododd David Browne fod canllawiau arfer da CGA yn cael eu hyrwyddo yn ystod cyflwyniadau a'u bod ar gael yn hwylus wrth ymweld ag ysgolion a cholegau. Byddai'n holi p'un a oedd hi'n bosibl monitro gweithgarwch ar y wefan yn gysylltiedig â'r canllawiau.

16.6 Nododd Bethan Stacey y byddai'n ddefnyddiol cael adborth gan gofrestreion, lle bo'n bosibl.

16.7 Nododd un aelod nad oedd hyfforddiant proffesiynol parhaus bob amser ar gael i athrawon newydd gymhwyso, a holodd p'un a ellid cyflwyno hyfforddiant gorfodol o safbwynt bodloni'r Cod Ymddygiad cyn bod cofrestriadau'n cael eu hailddilysu.

16.8 Nodwyd y byddai ailddilysu'n cael ei groesawu gan CGA yn rhan o'i ddyletswyddau rheoleiddio ac y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

16.9 Nid oedd unrhyw sylwadau pellach ac roedd aelodau yn fodlon cymeradwyo'r canllaw arfer da.

**17. Ymateb drafft i Ddyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: pum her a galwadau am gyflwyniadau CGA 09/26**

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey, *Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*, ymateb drafft CGA i alwad Llywodraeth Cymru am dystiolaeth ar ddyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: pum her a galwadau am gyflwyniadau.

17.2 Gwnaed sylw am yr anghysondeb nad oedd addysg uwch (AU) yn dod o fewn y cylch gwaith cofrestru a nodwyd bod CGA yn eithaf anarferol o ran ehangder y categorïau yr oedd yn eu cofrestru.

17.3 Holodd un aelod p'un a oedd mynd ymlaen i addysg uwch wedi'i ystyried. Roedd data UCAS wedi dangos cynnydd yn nifer y ceisiadau i Loegr a gostyngiad i Gymru, a fyddai hefyd yn cael effaith ar y Gymraeg.

17.4 Awgrymodd un aelod y gallai ffocws gael ei gryfhau o ran sut byddai dysgwyr yn elwa o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani a'r effaith ehangach ar y system, yn enwedig o ran diogelu.

17.5 Cytunodd aelod arall y byddai hyn yn cynorthwyo â'r naratif o ran helpu'r gweithlu ehangach.

17.6 Cadarnhaodd Bethan Stacey y byddai sylwadau’n cael eu hystyried ar ôl y cyfarfod ac y byddai unrhyw ddiwygiadau’n cael eu rhannu gydag aelodau.

**18. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CGA 10/26**

18.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a roddodd ddiweddariad cynnydd i aelodau ynghylch rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru.

18.2 Cadarnhawyd bod monitro Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa wedi’i gwblhau.

18.3 Roedd Prifysgol Glyndŵr wedi cysylltu ynghylch rhaglenni newydd yn gysylltiedig ag AGA.

18.4 Roedd statws Estyn fel arsylwr ar y Bwrdd Achredu AGA a’i ymrwymiad i weithio ar y cyd ar gysoni achredu, monitro ac arolygu wedi’u cadarnhau a byddai swyddogion CGA yn mynd i gyfarfod pellach ar 24 Mawrth 2026.

18.5 Cadarnhawyd y byddai CGA yn parhau i gymryd rhan yng nghyfarfodydd misol grŵp llywio Llywodraeth Cymru ar Werthuso’r Polisi AGA yn y flwyddyn ariannol nesaf.

18.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**19. Cynhadledd IFTRA 2026 CGA 11/26**

19.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a ddarparodd fanylion am bresenoldeb arfaethedig y Prif Weithredwr yng Nghynhadledd IFTRA 2026.

19.2 Cadarnhawyd nad oedd y Prif Weithredwr yn bwriadu mynd i’r gynhadledd mwyach oherwydd amseru archwiliad yr adroddiad blynyddol a’r cyfrifon, ac absenoldeb wedi’i drefnu ymhlith y staff.

19.3 Disgwylir cynnal y cyfarfod nesaf yng Nghanada yn 2028 a byddai’r Prif Weithredwr yn bwriadu mynd iddo.

19.4 Nododd un aelod bwysigrwydd datblygiad proffesiynol a chroesawodd y cyfle roedd y gynhadledd yn ei gynnig.

19.5 Nododd un aelod y cyfle i archwilio perchnogaeth ar safonau o bob cwr o’r byd.

19.6 Cadarnhaodd Bethan Stacey fod CGA yn sganio’r gorwel yn gysylltiedig â chyrff eraill, eu ffioedd, eu cronfeydd wrth gefn, a hefyd eu pwerau rheoleiddio a sut roedd y rhain yn cymharu â CGA.

19.7 Nodwyd y byddai’r Prif Weithredwr yn cyfarfod â Phrif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban y byddai, erbyn hynny, wedi bod i Gynhadledd IFTRA ac yn gallu rhannu gwybodaeth.

19.8 Nodwyd hefyd y byddai’r Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi a’r Cyfarwyddwr Rheoleiddio yn mynd i Gynhadledd Flynyddol y Sefydliad Rheoleiddio ar 25 Mawrth 2026.

19.9 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach.

**20 - 25. Eitem(au) gwybodaeth**

Cafodd aelodau bapurau “er gwybodaeth” ar:

- **Adolygiad chwarterol, 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2025** **(CGA 12/26)**
- **Sefydlu Statudol a’r Pasbort Dysgu Proffesiynol** **(CGA 13/26)**
- **Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Addysg** **(CGA 14/26)**
- **Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC)** **(CGA 15/26)**
- **Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol** **(CGA 16/26)**
- **Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru** **(CGA 17/26)**

**26. Unrhyw fater arall**

26.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben.

**Yna, symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.**